

PHILLIPS, HENRY (1719 - 1789), gweinidog gyda'r Bedyddwyr

Enw: Henry Phillips
Dyddiad geni: 1719
Dyddiad marw: 1789
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Bedyddwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Nhrelech (Caerfyrddin) yn 1719. Argyhoeddwyd ef, 'yn 18 oed,' dan [Howel Harris](#); aeth i Landdowror at [Griffith Jones](#) a bu'n athro mewn amryw o'i ysgolion; derbyniai'r Cymun gan [Howel Davies](#). Troes wedyn at y Bedyddwyr ym Mhen-y-garn, a bedyddiwyd ef gan [Miles Harry](#) yn 1750; bu dan addysg yn y Trosnant a hefyd (1751) ym Mryste. Yn 1752-3 bu'n cynorthwyo gweinidog yr 'Hen D Cwrdd' yn Wrecsam, gan wasnaethu hefyd yn Nantwich; ac o 1753 hyd 1758 pregethai (heb ofalaeth) mewn amryw leoedd yn neheudir Lloegr. Urddwyd ef yn 1758 yn weinidog ar eglwys y Bedyddwyr yn Waterford, Iwerddon; bu yno hyd 1763, pan alwyd ef i'r Back-lane yn Nulyn. Dychwelodd i Gymru yn 1765, a bwriadodd dymor ym Mhen-y-garn ac wedyn yn weinidog yn Exeter; ond fis Chwefror 1766 sefydlwyd ef yn 'Sarum' (h.y. Salisbury), ac yno y bu weddill ei oes. Cynhaliai ysgol rad yno, a bu nifer mawr o blant tlodion dan addysg ynddi. Cadwodd ei gyswllt â Chymru, a thrwy ei law ef y rhannodd John Thornton gannoedd o *Feibla*u Cymraeg yng Nghymru. Yn 1762 cyhoeddwyd pamffled chwecheiniog 24 tudalen, *A Sketch of the Life and Character of the Reverend and Pious Griffith Jones*; pan ailargraffwyd hwn yn 1777 yn y *Gospel Magazine*, amlygwyd mai ei awdur oedd 'H. P., Sarum,' felly Phillips ar un ystyr oedd cofiannydd cyntaf [Griffith Jones](#) - ysywaeth, y mae'r pamffled yn llawer llawnach o foliant nag o ffeithiau. Heblaw hwn, sgrifenniodd Phillips 'lythyr' a gyfieithwyd (gyda'i gydsyniad) yn 1781 dan y teitl *Y Dinasoedd Noddfa wedi eu priodoli i Grist*. Bu farw yn Salisbury 20 Awst 1789, a chladdwyd ym mynwent y Bedyddwyr yno.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Joshua Thomas, *A History of the Baptist Association in Wales* (1795), 64, a *Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry: o amser yr Apostolion, hyd y flwyddyn hon: yn ddwy ran* (1778), 491-2

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru (Aberdâr 1867-70)*, ii, 389-90

G. V. Price, *The Old Meeting at Wrexham* (h.y. Wrecsam)

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry*, 467, 607

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733156](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Evch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.